



Cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Addysg Bellach

Cefndir

Pwrrpas y canllaw hwn yw cefnogi colegau addysg bellach i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac i roi hyder ar sut i gofnodi gweithgareddau a gwblheir yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

Mae'r canllawiau canlynol yn enghreifftiau o sefyllfaoedd dysgu a sut mae nhw'n berthnasol i'r cofnod LA26 yn y LLWR.

Nid yw'r enghreifftiau yn cynnwys pob sefyllfa bosibl, ond maent yn rhoi syniad o sut y gellid annog dysgwyr gydag ystod o alluoedd a lefelau gwahanol yn eu sgiliau Cymraeg, i ymgymryd â gweithgareddau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir ymgorffori elfennau Cymraeg yn yr addysgu ar wahanol lefelau mewn ymateb i anghenion y dysgwyr, ac i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ychwanegol yn helpu darparwyr i benderfynu pa gategori LA26 ar LLWR yw'r un mwyaf priodol i'w gofnodi ar gyfer dysgwyr unigol.

Dylid cofio rhai ffeithiau sylfaenol:

- E1 yw'r categori agoriadol yn LA26, ac mae angen newid hwn ar gyfer unrhyw ddysgwr sy'n gwneud unrhyw ddysgu neu yn cael ei asesu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Nid yw LA26 yn gofnod i ddisgrifio iaith y dosbarth;
- Mae LA26 yn cofnodi iaith dysgu a iaith asesu pob un dysgwr unigol yn y dosbarth hwnnw, neu yn y gweithle;
- Defnyddir categorïau C1 a B1 i benderfynu lefel y codiad cyllid sydd ar gael yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir ar iaith dysgu ac asesu y dysgwyr unigol.

E1: Holl ddysgu ac asesu yn Saesneg yn unig

E1 Nodiadau:

- *Os mai ychydig o Gymraeg achlysurol, megis cyfarchion syml a ddefnyddir, yna dylid cofnodi'r weithgaredd fel E1 yn unig.*
- *Os nad yw'r dysgwr eisiau, neu'n methu â chael ei asesu na chyflawni unrhyw ddysgu yn Gymraeg, yna dylai rhai deunyddiau a gwybodaeth fod ar gael i'r dysgwr i godi ymwybyddiaeth o'r iaith ynghyd ag anogaeth i werthfawrogi dealltwriaeth o rôl yr iaith yng Nghymru ac yn y gweithle.*

Dysgwr A

Bach iawn o sgiliau Cymraeg os o gwbl, sydd gan Ddysgwr A. Nid yw'r dysgwr eisiau unrhyw gysylltiad â gweithgaredd yn y Gymraeg ac mae'n gyndyn o gael unrhyw gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg heblaw am rhywfaint o gyswllt achlysurol a chyfyngedig.

Yn ystod y cyfnod dysgu mae'r dysgwr mewn cysylltiad â'r iaith drwy negeseuon a deunydd dwyieithog etc. Daw'n ymwybodol o'r iaith a'i rôl yn hanes a diwylliant Cymru. Wrth i'r addysgu ddatblygu, mae'r tiwtor yn edrych eto ar botensial cynnwys agweddau ar y Gymraeg yn y dysgu er mwyn annog mwy o gyswllt a gwerthfawrogiad o'r iaith.

B3: Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach iawn o'r dysgu. Asesu yn Saesneg yn unig.

B3 Nodiadau:

- *Dylid defnyddio B3 lle nad oes yr un o'r asesiadau yn y Gymraeg ond lle mae ychydig o'r sgwrsio/addysgu yn y Gymraeg.*
- *Angen cyswllt yn y Gymraeg rhwng yr asesydd/darlithydd/cymhorthydd a'r dysgwr.*
- *Bydd tystiolaeth y portffolio yn Saesneg a phob asesiad wedi ei gwblhau yn Saesneg.*
- *Pan nad yw'r tiwtor yn siarad Cymraeg, gall y dysgwr dderbyn gweithgareddau priodol i'w cwblhau yn y Gymraeg.*
- *Os oes gan y dysgwr rai sgiliau Cymraeg ond yn gyndyn o gwblhau asesiadau neu ran o'u dysgu yn y Gymraeg; dylid annog y dysgwr i gymryd rhan trwy gynnwys elfennau Cymraeg yn y profiad dysgu.*
- *Nid yw ychydig ddefnydd o'r Gymraeg yn achlysurol yn ddigon i gofnodi'r dysgu fel B3.*

Mae **Dysgwr B** wedi astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ond mae ei geirfa'n brin a'i hyder yn isel. Nid oes ganddi'r sgiliau i gael ei hasesu yn y Gymraeg ond mae'n gwerthfawrogi y byddai'n ddefnyddiol cael ychydig o sgiliau iaith sylfaenol ar gyfer byd cyflogaeth i'r dyfodol.

Mae'r dysgwr ar gwrs lle mae un o'r unedau'n cael ei ddysgu gan diwtor sy'n siarad Cymraeg ac er bod yr holl asesiadau yn y cael eu cwblhau yn y Saesneg, mae rhywfaint o'r trafod yn y Gymraeg sy'n cyfrannu tuag at y profiad dysgu sy'n berthnasol i'r cymhwyster. Mi fydd y dysgwr yn cwblhau tasgau syml, er enghraifft, rhestru lliwiau a chyfri yn y Gymraeg ar gwrs gofal a datblygiad plant.

Mae **Dysgwr C** yn cwblhau cymhwyster lefel 3 yn y sector lletygarwch. Mae ganddo gymhwyster TGAU Cymraeg ail-iaith is ond does ganddo ddim hyder i gwblhau cyfran sylweddol o'i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae adran y coleg yn annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, ond mae'r dysgwr ar gwrs cyfrwng Saesneg lle mai dim ond sgiliau cyfyngedig yn y Gymraeg sydd gan y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid.

Cyflwynir taflenni gwaith a gweithgareddau yn y Gymraeg i'r dysgwr sy'n amlygu geirfa a brawddegau perthnasol a ddefnyddir yn y diwydiant wrth ymdrin â chwsmeriaid. Mae'r tasgau'n cynnwys gweithgareddau i'r dysgwr eu cyflawni sy'n cyfrannu at y profiad dysgu ac mae'r dysgwr yn derbyn cefnogaeth gan swyddog cefnogi'r Cymraeg yn y coleg. Anogir y dysgwr i roi cynnig ar rai elfennau o sgiliau hanfodol cyfrwng Cymraeg, ar lefel sy'n briodol i'w sgiliau iaith. Cofnodir y gweithgareddau fel tystiolaeth ar gyfer B3.

B2: Cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg e.e. defnyddir Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn sawl agwedd ar y weithgaredd ddysgu, ond nid ym mhob un. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond gallai peth fod yn y Gymraeg hefyd.

B2 Nodiadau:

- *Os cafodd unrhyw ran o dystiolaeth ysgrifenedig ei chwblhau yn y Gymraeg, gan gynnwys asesu llafar, byddai hyn yn atgyfnerthu y dylid ei gofnodi fel B2.*
- *Byddai hyn yn cynnwys defnyddio cryn dipyn o Gymraeg yn y dysgu a gallai gynnwys rhai asesiadau wedi'u cwblhau yn Gymraeg.*
- *Os yw dystiolaeth y portffolio yn Saesneg ond mae'r cwbl neu'r rhan fwyaf o'r sgwrsio/hyfforddi wedi bod yn y Gymraeg, gellid ei gofnodi fel B2.*
- *Y cwbl neu'r rhan fwyaf o'r hyfforddi yn y Gymraeg ond yr asesu yn Saesneg.*

Dysgwr D

Mae'n astudio ar gwrs gweinyddiaeth busnes lefel 3 ac yn rhugl yn y Gymraeg. Nid yw'n siarad Cymraeg gyda'i deulu a'i ffrindiau, felly ychydig yn ddihyder ac yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu o ddydd i ddydd.

Mae prif diwtor y cwrs yn siarad Cymraeg, ac mae'r dysgwr mewn dosbarth dwyieithog ac yn cael tasgau ac asesiadau yn y Gymraeg. Ar ôl cwblhau rhai tasgau yn y Gymraeg mae ei hyder yn codi wrth ysgrifennu'r Gymraeg ac mae wedi cwblhau un asesiad yn yr iaith. Trafodir y gwaith yn y dosbarth yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig yn y Saesneg.

Dysgwr E

Daw o ysgol gyfrwng Cymraeg ac mae ganddo gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae'n astudio ar gwrs gofal plant a gofal blynyddoedd cynnar lefel 2 lle mae'r tiwtoriaid yn dysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ond mae'r adnoddau i gyd yn ddwyieithog.

Mae'r dysgwr yn cwblhau gwaith cwrs yn y ddwy iaith ac mae hynny'n cynnwys creu dogfennau enghreifftiol sy'n berthnasol i'r cwrs. Fodd bynnag mae nifer yr asesiadau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cwblhau gan y dysgwr yn fyr o'r trothwy 50 y cant, felly mi fydd y weithgaredd ddysgu yma yn cael ei chofnodi fel B2.

B1: Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50 y cant o'r asesu sydd ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflawni'r deilliant hwn trwy ddefnyddio unrhyw fethodoleg addysgu briodol.

B1Nodiadau:

- *I fod yn gymwys, rhaid i o leiaf 50 y cant o'r asesiadau cael eu cwblhau yn y Gymraeg.*
- *Gall yr asesiad fod yn ysgrifenedig neu'n llafar.*
- *Mae angen i'r darparwr fod yn hyderus y medrir dangos tystiolaeth o iaith yr asesiad.*
- *Y rhan fwyaf o'r dysgu wedi'i gwblhau yn y Gymraeg gan y dysgwr, gydag adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i gefnogi'r dysgu, yn enwedig yn yr agweddau a asesir yn y Gymraeg.*
- *Bydd rhai colegau yn cynyddu eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg fesul uned neu fodiwl yn raddol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, os mai 50 y cant o'r cymhwyster a gyflwynir yn y coleg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yna dylai'r holl asesiadau gael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg i fod yn gymwys i gael ei gofnodi fel B1.*

Astudiodd **Dysgwr F** bob un o'i chymwysterau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n astudio ar gyfer cymhwyster gofal plant lefel 3.

Mae'r dysgwr mewn grŵp dwyieithog lle mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau yn ddwyieithog a'r dysgu'n tueddu i fod trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Trafodir y gwaith gyda'r tiwtor yn y Gymraeg, ac mae grŵp tiwtorial Cymraeg yn bodoli lle mae'r dysgwr yn cyflwyno ei gwaith yn y Gymraeg ac yn cwblhau ei hasesiadau ffurfiol yn y Gymraeg.

Mae gan **Dysgwr G** gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac mae'n astudio am gymhwyster trin gwallt.

Mae hi ar gwrs dwyieithog lle mae mwyafrif y tiwtoriaid yn siarad Cymraeg a Saesneg bob yn ail. Mae'r taflenni gwaith a'r adnoddau i gyd yn ddwyieithog, mae'r gwaith cwrs a'r profion ymarferol yn cael eu cwblhau yn y Gymraeg yn bennaf ond gyda rhywfaint o Saesneg yn yr asesiadau ysgrifenedig ffurfiol. O ganlyniad mae mwyafrif yr asesiadau ysgrifenedig a'r profion ymarferol yn golygu bod dros 50 y cant o'r asesiadau yn gymwys i'w cofnodi fel B1.

C1: Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg a'r holl asesu ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodiadau C1:

- *Dylai'r dysgu gael ei gwblhau yn y Gymraeg ac adnoddau cyfrwng Cymraeg fod ar gael i gefnogi'r holl ddysgu.*
- *Er mwyn cofnodi gweithgaredd ddysgu fel C1 y mae'n rhaid i bob asesiad ar gyfer pob gweithgaredd, gael ei gwblhau yn y Gymraeg.*

Dysgwr H

Mae Dysgwr H ar gwrs dwyieithog Gofal a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar, lle mae'r tiwtoriaid i gyd yn siaradwyr Cymraeg ac mae'r adnoddau i gyd yn ddwyieithog. Dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf ond siaredir rhywfaint o Saesneg yn y dosbarth gan mai TGAU Cymraeg ail iaith sydd gan rhai dysgwyr. Yn yr ardal hon, mae'r galw am staff sydd â sgiliau da Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, fel cynorthwywyr dosbarth, mewn lleoliadau Mudiad Meithrin ac mewn lleoliadau gofal plant cyn ysgol.

Anogir a chefnogir y siaradwyr Cymraeg i gwblhau y rhan fwyaf o'u gwaith yn y Gymraeg a chwblhau eu hasesiadau yn y Gymraeg. Mae'r dysgwyr ail-iaith yn cwblhau rhywfaint o'u hasesiadau yn y Gymraeg, ond ddim digon i'w gofnodi fel C1. Felly byddir yn cofnodi eu gwaith hwy yn B1 neu B2 yn ddibynnol ar faint o'r asesiadau a gwblheir dros neu o dan 50 y cant yn y Gymraeg.

Dysgwr L

Mae dysgwr L yn siaradwr Cymraeg rhugl ac yn defnyddio Cymraeg bob dydd fel ei phrif gyfrwng i gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau. Wrth gwblhau cymhwyster lefel 3 mewn rheoli busnes, mae'n gwybod y bydd angen iddi fod yn hyderus yn ei Saesneg a'i Chymraeg i roi'r cyfle gorau posib iddi wrth gystadlu am swyddi yn y dyfodol. Byddai'n well ganddi gwblhau pob asesiad ac ysgrifennu ffurfiol yn y Gymraeg ac mae tiwtor sy'n siarad Cymraeg yn cefnogi ei chais i wneud hyn.

Anogir y dysgwr i gwblhau'r elfen sgiliau hanfodol yn y Saesneg a'r Gymraeg, ac i gefnogi'r prif gymhwyster mae'r dysgwr yn cwblhau pob asesiad sydd ar gael yn y Gymraeg, trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwybodaeth ychwanegol a dogfennau polisi:

Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg (2017) - Strategaeth iaith Gymraeg
<https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/welsh-language-policies-upto-2017/welshmededstrat/?skip=1&lang=cy>

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)
<https://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?lang=cy>

Cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg llawlyfr cefnogi'r defnyddiwr ar gyfer darparwyr dysgu 2018/19
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/180502-llwr-manual-2018-19-v1.pdf>